

Registered number
IP30396R

Glamorgan County Cricket Club Limited

Report and Financial Statements

31 December 2019

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chairman's Report

Few could argue with the words of Edward Bevan in Wisden when he described 2018 as a "*wretched season*" for Glamorgan. In those circumstances, it was no surprise that the season ended with (again in Edward Bevan's words) "*a packed members' forum demanding answers during the final game.*" Though injuries had been a mitigating factor, in truth it was clear that radical steps were required in the hope and expectation that the 2019 season would show a significant improvement in the club's fortunes.

The changes that were made are well documented and they had a significant impact. Matthew Maynard became the head coach (initially on an acting basis). Mark Wallace was appointed as director of cricket. Of course, the club's policy was – and is – to nurture home grown players, but in addition the club recruited other players. None has proved to be of greater importance than Marnus Labuschagne. We can all celebrate Marnus's outstanding contribution in 2019, and he in turn would be the first to acknowledge the debt of gratitude he owes to Matthew Maynard to whom he attributes some of his extraordinary achievements in the Ashes. And perhaps it was no surprise that the appointment of Matthew as a coach on a long term contract should be accompanied by Marnus signing a two year agreement with the club. His international commitments are such that he will inevitably be absent from time to time, but we know that during his time with us he will be a power for good for Glamorgan both on and off the field.

So the 2019 season was – and I hope few would quibble – an improvement. Our white ball performance was of course extremely disappointing but if, like me, you cherish the longer form of the game you will be delighted that the club did very well in the Championship, and only narrowly missed promotion.

Conscious as I am that I should not trespass for too long on Hugh Morris's territory I shall move swiftly away from the field of play to those other matters which have pre-occupied us as a board.

In that respect, I should thank all the board members. Hugh is of course present in his capacity as chief executive. The others attend on an entirely voluntary basis. I am hugely grateful for the contribution that each of them makes. I hope, however, that they will collectively forgive me if I single out two of them.

We know of course that Alan Jones, one of the great men of Glamorgan, had been a President of very considerable distinction. One might have thought it a wholly thankless task to try to fill his shoes. But, to our great fortune, we have had an extraordinarily worthy successor in Gerard Elias, a true Glamorgan man in every sense. He (supported by Elizabeth) has been a wonderful ambassador for the club, and a most welcome host to all those guests who have joined us during the season. But, more than that, he has brought to the board the wisdom of a man who is not only ambassador for the club, and a most welcome host to all those guests who have joined us during the season. But, more than that, he has brought to the board the wisdom of a man who is not only steeped in cricket (he is for example a former chair of Glamorgan and of the ECB Cricket Discipline Commission) but who can also draw on his experience as a lawyer of the first rank.

At last year's AGM we promised too that we would appoint a member of the board who had recent experience of first class cricket. Gareth Rees needs no introduction from me. He played nearly 200 games for the club before retiring in 2014. He has an intimate knowledge of Glamorgan specifically and cricket in general, and during his short time with us he has made a significant contribution to the board. I have little doubt that, as time passes, his influence will increase, and that he will play a major part in ensuring that the club which he served so successfully as a player has a strong and sustainable future.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chairman's Report

I know that you will also join me in thanking John Williams, our Honorary Consultant and Ambassador, who attends our board meetings as an observer, and whose advice we value highly. For many years John has of course led the work of the Balconiers who remain magnificent supporters of the club. This year was no exception in that respect.

Before I turn to the opportunities – and threats – which lie ahead, I know you will forgive me for making a special mention of Mark Frost who was awarded the British Empire Medal in the New Year's Honours List for his services to cricket. Since stepping down as a seam bowler for the county, Mark has worked tirelessly to promote the community game. Now, working jointly for Glamorgan and Cricket Wales, he has been a brilliant and dedicated spearhead for All Stars Cricket, has led the way with many initiatives in BAME communities, and has been a great champion of the girls' and women's game in Wales. We are hugely grateful to Mark and congratulate him on a much deserved honour.

Soon, the 2020 season will be underway. At first blush, one might think it a case of business as usual. The County Championship begins with our game against Middlesex at Sophia Gardens on 19 April. We shall be playing six Championship games before the Vitality Blast begins in late May, and the Royal London Cup will follow in July.

But there is an intruder, in the form of a new competition, The Hundred. The competition has held its critics, many fiercely vocal. However, this club should embrace it with alacrity and enthusiasm. It is our good fortune that the Welsh Fire team will play its home games in Cardiff. And we should be thrilled that the team will include Steve Smith, Mitchell Starc, Jonny Bairstow, Colin Ingram and that young talented wicket keeper/batsman Tom Banton. The Hundred will attract new followers to our great game. Who, after all, would not wish to see a reprise of the contest between Jofra Archer and Steve Smith which will take place at Sophia Gardens on 19 July 2020?

If the Hundred succeeds, as I am sure it will, and Glamorgan plays its part, it will help to ensure the financial sustainability of this club. It is no secret that over the next few years all first class counties will receive significantly more funding from the ECB. We must – and will – use it wisely.

However, we must also keep our side of the bargain with the ECB by making sure that our grounds are fit for purpose, that we are doing everything we can to promote the game for men and women in Wales, that we are fostering home grown talent, and that our governance arrangements (we are already ahead of the pack) are appropriate and robust.

I could say a great deal more about how we plan to meet the ECB's expectations, but I rather suspect that I have already exhausted your patience. So I shall conclude by thanking you, our members, for your enduring support, and by expressing the wish that in the 2020 season Glamorgan both on and off the field will be a club of which you can justifiably be proud.

Gareth Williams
Chairman
21 February 2020

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Cadeirydd

Prin yw'r rhai a fyddai'n dadlau â geiriau Edward Bevan yn Wisden pan ddisgrifiodd 2018 fel "tymor truenus" i Forgannwg. Dan amgylchiadau o'r fath, does ryfedd i'r tymor ddod i ben gyda (eto yng ngeiriau Edward Bevan) "fforwm aelodau llawn dop yn mynnu atebion yn ystod y gêm olaf." Er i anafiadau fod yn ffactor lliniarol, yn y bôn roedd hi'n amlwg bod angen cymryd camau radical yn y gobaith a'r disgwyliad y byddai ffawd y clwb yn gwella'n sylweddol yn ystod tymor 2019.

Mae'r newidiadau a wnaed yn wybyddus i bawb a chawsant effaith sylweddol. Daeth Matthew Maynard yn brif hyfforddwr (dros dro i ddechrau). Penodwyd Mark Wallace yn gyfarwyddwr criced. Wrth gwrs, polisi'r clwb oedd - ac yw - meithrin chwaraewyr cartref, ond yn ogystal recriwtiwyd chwaraewyr eraill. Ymhlith y pwysicaf o'r rhain oedd Marnus Labuschagne. Gallwn un ac oll ddathlu cyfraniad aruthrol Marnus yn 2019, ac yntau, yn ei dro, fyddai'r cyntaf i gydnabod ei ddyled i Matthew Maynard, oherwydd i hwnnw y mae'n diolch am rai o'i lwyddiannau anhygoel yng nghyfes y Llundw. Ac efallai nad oedd yn syndod bod penodiad Matthew fel hyfforddwr ar gytundeb hirdymor wedi cydfynd â Magnus yn arwyddo cytundeb dwy flynedd gyda'r clwb. Mae ei ymrwymadau rhyngwladol yn golygu ei bod hi'n anorod y bydd yn absennol o dro i dro, ond gwyddwn y bydd, yn ystod ei amser gyda ni, yn gaffaeliad mawr i Forgannwg, ar, ac oddi ar y cae.

Felly roedd tymor 2019 – a phrin yw'r rhai fyddai'n anghytuno gobeithio – yn welliant. Roedd ein perfformiad gyda'r bêl wen wrth gwrs yn hynod o siomedig, ond os ydych chi, fel ffinau, yn trysori'r fersiwn hirach o'r gêm, mi fyddwch wrth eich boddau bod y clwb wedi gwneud yn dda iawn yn y Bencampwriaeth, ac wedi colli dyrchafiad o drwch blewyn yn unig.

Rwy'n ymwybodol na ddylwn i dresmasu'n ormodol ar diriogaeth Hugh Morris ac felly rwyf am symud yn gyflym o'r maes chwarae i'r materion eraill hynny sydd wedi mynd â'n sylw ni fel bwrdd.

Yn hynny o beth, rwyf am ddiolch i holl aelodau'r bwrdd. Mae Hugh wrth gwrs yn bresennol yn ei rôl fel prif weithredwr. Mae'r lleill yn mynychu'n gwbl wirfoddol. Rwy'n hynod ddiolchgar am y cyfraniad a wneir gan bob un ohonynt. Rwy'n gobeithio, fodd bynnag, y caf i faddeuant ganddynt am gyfeirio at un neu ddau yn benodol.

Rydym yn gwybod wrth gwrs i Alan Jones, un o gewri Morgannwg, fod yn Llywydd hynod o glodwiw. Mi allech chi feddwl mai tasg gwbl ddi-ddiolch fyddai ceisio llenwi ei esgidiau. Ond, yn hynod ffodus i ni, rydym wedi cael olynydd anhygoel o deilwng yn Gerard Elias, un o wir ddynion Morgannwg ymhob ystyr. Mae Gerard (gyda chefnogaeth Elizabeth) wedi bod yn llysgennad ardderchog i'r clwb, ac wedi rhoi croeso mawr i'r holl westeion sydd wedi ymuno â ni yn ystod y tymor. Ond, yn fwy na hynny, mae'r bwrdd wedi elwa o'i ddoethineb fel un sydd nid yn unig wedi'i drwytho yn y gêm (er enghraifft, mae'n gyn-gadeirydd Morgannwg a Chomisiwn Disgyblu Criced yr ECB), ond fel un sydd â phrofiad fel cydweithiwr o'r radd flaenaf. Mae'n gwybod y byddwch hefyd yn ymuno â mi i ddiolch i John Williams, ein Hymgyngorydd a'n Llysgennad Anrhydeddus, sy'n mynychu'n cyfarfodydd bwrdd fel arsylwr, gan gynnig cyngor hynod werthfawr. Am nifer o flynyddoedd mae John wrth gwrs wedi arwain gwaith y Balconiers, sy'n parhau i fod yn gefnogwyr ardderchog i'r clwb. Nid oedd eleni'n eithriad yn hynny o beth.

Yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y llynedd mi wnaethon ni addo penodi aelod o'r bwrdd oedd â phrofiad diweddar o griced dosbarth cyntaf. Does dim angen imi gyflwyno Gareth Rees ichi. Chwaraeodd Gareth bron i 200 o gemau i'r clwb cyn ymddeol yn 2014. Mae ganddo wybodaeth drylwyr o Forgannwg yn benodol, a chried yn gyffredinol, ac yn ystod ei gyfnod byr gyda ni mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r bwrdd. Rwy'n ffyddiog, wrth i amser fynd yn ei flaen, y bydd ei ddylanwad yn cynyddu, a bydd yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod y clwb a wasanaethodd gyda'r fath lwyddiant fel chwaraewr â dyfodol cryf a chynaliadwy.

Rwy'n gwybod y byddwch hefyd yn ymuno â mi i ddiolch i John Williams, ein Hymgyngorydd a'n Llysgennad Anrhydeddus, sy'n mynychu'n cyfarfodydd bwrdd fel arsylwr, gan gynnig cyngor hynod werthfawr. Am nifer o flynyddoedd mae John wrth gwrs wedi arwain gwaith y Balconiers, sy'n parhau i fod yn gefnogwyr ardderchog i'r clwb. Nid oedd eleni'n eithriad yn hynny o beth.

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Cadeirydd

Cyn imi droi at y cyfleoedd – a'r bygythiadau – sydd i ddod, rwy'n gwybod y byddwch yn maddau imi am gyfeirio'n arbennig at Mark Frost, a dderbyniodd Fedal yr Ymerodraeth Brydeinig yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd am ei wasanaeth i'r byd criced. Ers iddo roi'r gorau iddi fel sêmfowliwr i'r sir, mae Mark wedi gweithio'n ddiflino i hyrwyddo criced cymunedol. Erbyn hyn yn gweithio ar y cyd i Forgannwg a Chriced Cymru, mae wedi bod yn hyrwyddwr gwych ac ymroddgar i griced All Stars, wedi bod ar flaen y gad gyda nifer o fentrau o fewn cymunedau BAME, ac wedi bod yn hyrwyddwr ardderchog o griced merched yng Nghymru. Rydym yn hynod ddiolchgar i Mark ac yn ei longyfarch ar ei anrhydedd haeddiannol iawn.

Bydd tymor 2020 yn dechrau'n fuan. Ar y dechrau, gellir meddwl nad oes dim wedi newid. Bydd Pencampwriaeth y Siroedd yn dechrau gyda'n gêm yn erbyn Middlesex yng Ngerddi Sophia ar 19 Ebrill. Byddwn yn chwarae chwe gêm Pencampwriaeth cyn i'r gystadleuaeth Vitality Blast ddechrau'n hwyr ym Mai, ac yna'r Royal London Cup i ddilyn yng Gorffennaf.

Ond mae yna ddieithryn, ar ffurf cystadleuaeth newydd Can Pelen (*The Hundred*). Mae gan y gystadleuaeth ei beirniaid, a nifer o'r rheiny'n llafar a hallt iawn eu beirniadaeth. Fodd bynnag, mi ddylai'r clwb hwn groesawu'r gystadleuaeth â breichiau agored a brwdfrydedd. Yn ffodus iawn i ni, bydd y tîm Tân Cymreig yn chwarae ei gemau cartref yng Nghaerdydd. A dylem fod wrth ein boddau bod y tîm yn cynnwys Steve Smith, Mitchell Starc, Jonny Bairstow, Colin Ingram a'r wicedwr/batiwr ifanc dawnus Tom Banton. Bydd y gystadleuaeth Can Pelen yn denu dilynwyr newydd i'n gêm wych. Pwy, wedi'r cyfan, na fyddai'n dymuno gweld y gystadleuaeth rhwng Jofra Archer a Steve Smith yn cael ei hailadrodd, a hynny yng Ngerddi Sophia ar 19 Gorffennaf 2020?

Os bydd y gystadleuaeth Can Pelen yn llwyddiant, ac rwy'n siŵr y bydd, a bod Morgannwg yn chwarae ei ran, mi fydd yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol i'r clwb. Nid yw'n gyfrinach y bydd yr holl siroedd dosbarth cyntaf yn derbyn llawer mwy o arian gan yr ECB dros y blynyddoedd nesaf. Mi ddylen ni - ac mi fyddwn ni- yn gwneud defnydd doeth ohono.

Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gadw'n hochr ni o'r fargen gyda'r ECB drwy wneud yn siŵr bod ein lleiniau'n addas i'r diben, ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i hyrwyddo'r gêm ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru, ein bod yn meithrin doniau cartref, a bod ein trefniadau llywodraethu (rydym eisoes ar y blaen yn hynny o beth) yn briodol ac yn gadarn.

Gallwn ddweud llawer mwy am ein cynlluniau i gwrdd â disgwyliadau'r ECB, ond dwi ddim am fanteisio ymhellach ar eich amynedd. Felly rwyf am gloi drwy ddiolch i chi, ein haelodau, am eich cefnogaeth barhaus, gan fynegi'r dymuniad y bydd Morgannwg, yn nhymor 2020, ar, ac oddi ar y cae, yn glwb y gallwch fod yn haeddiannol falch ohono.

cae, yn glwb y gallwch fod yn haeddiannol falch ohono.

Gareth Williams
Cadeirydd
21 Chwefror 2020

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

The directors present their report and audited financial statements for the year ended 31 December 2019.

Principal activities

The principal activity of the club is to promote, encourage and foster the game of cricket for the benefit of the members at all levels in Wales.

Review of the year

In many ways, 2019 felt like a fresh start as we entered the season with a new director of cricket, an interim head coach, a new captain, a new overseas player and some new faces amongst the playing squad. Our overall target was to reach the beginning of September with a realistic shot at promotion and as we entered the month in the top four, we were hopeful a final push would result in a top two finish. Unfortunately, we fell just short of a first appearance in Division 1 since 2005 but we had made some important strides forward during the season.

Mark Wallace began his role as director of cricket in February and made some important early decisions. First, he appointed Matthew Maynard as interim head coach for the 2019 season and quickly followed up by signing Marnus Labuschagne as our overseas player. Few Glamorgan supporters will have heard of Marnus before his arrival in Cardiff in April, but by the end of the season his name was on everyone's lips.

Marnus enjoyed remarkable early season form as he reeled off five Championship hundreds at an average of over 65 and his insatiable appetite and enthusiasm for the game had a hugely positive impact in the dressing room and with our members. His exploits were not lost on the Australian selectors as he was chosen in the Australian touring party for the Ashes Series and immediately made his mark on the world stage.

The run of form Marnus has enjoyed in international cricket since deputising as a concussion replacement for Steve Smith in the Lord's Test match has been extraordinary, to the extent he has risen into the top five of the ICC World Rankings of Test batsmen. It is a mark of the man that he recognised his time at Glamorgan, and working with Matthew Maynard in particular, as the catalyst for his transformation from a good First-Class batsman into one of the world's best.

We are delighted Marnus will continue to pull on the daffodil of Glamorgan for the next two years as he signed an extension to his contract at the end of the year, despite some very stiff competition for his services.

Marnus was not the only new face to start his Glamorgan career in a blaze of glory, as 'Billy' Root

Marnus was not the only new face to start his Glamorgan career in a blaze of glory, as 'Billy' Root relished his move to Wales and scored two early season hundreds including a magnificent career-best 229 against Northamptonshire.

'Billy' was joined at the top of the order by another newcomer, Charlie Hemphrey. After spending a couple of years playing in the second teams of Kent, Essex and Derbyshire, Charlie emigrated to Australia and found success with Queensland in the Sheffield Shield. Like 'Billy', he quickly settled into the Glamorgan dressing room and provided some much-needed stability at the top of the order. Charlie will have benefitted from the experience of a full County season and will be keen to translate many encouraging starts, including five fifties, into more eye-catching scores next season.

After relinquishing the captaincy at the beginning of the season, Michael Hogan had yet another outstanding campaign for the club. His 46 wickets at an average of 21 runs apiece continued his remarkable consistency for Glamorgan and I am sure members will join me in congratulating Michael on being awarded a thoroughly deserved testimonial in 2020.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

Timm Van Der Gugten was hampered by niggling injuries during 2019 which restricted his availability and Craig Meschede and Ruaidhri Smith were similarly blighted by injuries restricting their appearances to a handful of games between them.

Of the other seam bowlers, it was good to see Marchant de Lange back to his fiery best following a serious hamstring injury in 2018 and with a little more fortune he would have enjoyed a more profitable season. Meanwhile, Lukas Carey will be hoping a winter in Brisbane will allow him to return to wicket-taking ways in the 2020 season.

The opportunities for our spin bowlers were few and far between as Marnus took early season responsibility for this department and Kieran Bull was restricted in his availability due to a significant back injury. It is pleasing to report Kieran has responded well to surgery and is looking forward to challenging Andrew Salter for spin bowling duties in the Championship side.

Our out-ground festivals once again proved to be popular with our members and supporters across Wales and it was particularly pleasing for first-class cricket to return to Newport after a 54-year absence. The match against Gloucestershire was well attended and Newport Cricket Club should be congratulated for their excellent hospitality as well as producing a very good 4-day pitch.

We had another good pitch at Swansea as batsmen prospered despite the unseasonal weather during the game against Derbyshire in June. Once again, John Williams and The Balconiers worked tirelessly on behalf of the club and as ever, we appreciate the generous donation we received from them at the end of the season.

The Championship match at Colwyn Bay against Lancashire was always likely to attract a big crowd and with the visitors sitting proudly on top of the Division 2 table as they arrived at the Rhos-on-Sea ground, their faithful followers did not disappoint.

Lancashire was undoubtedly the strongest team we faced in the Championship in 2019 and they fully deserved their promotion back to Division 1 and a thumping victory in North Wales was dominated by a magnificent 266 off 240 balls from Dane Vilas.

In his first full season as captain, Chris Cooke made a good impression as a leader and he enjoyed an excellent season behind the stumps as well as averaging 46 with the bat. His calm influence, understanding of the game and the respect of his fellow professionals augurs well for the future.

Whilst we made some strides forward in Championship cricket our One Day performances were generally disappointing, particularly in the T20 format of the game. 'Billy' Root, Chris Cooke and David Lloyd led the way with the bat in the Royal London 50 over competition, whilst Marnus Labuschagne was unable to transfer his stellar Championship form to the shorter game. Marchant de Lange had another good season in the 50 over competition but generally we struggled with the ball in this competition.

Our T20 form was very disappointing and something we will be seeking to address for 2020. Our prospects were not helped by a merry-go-round of overseas players as Shaun Marsh' appearances were severely restricted due to injury, his brother Mitchell and Marnus Labuschagne were called up for Ashes duty and Fakhar Zaman was unable to make the impact we were hoping to see at the top of the order.

After five seasons of outstanding success, Colin Ingram had his most challenging T20 season and only David Lloyd amongst our top order batsmen showed any signs of consistent success which deservedly won him the One-Day Player of the Year Award.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

Andrew Salter and Marchant de Lange were our two most successful bowlers in the T20 competition but throughout the bowling unit our economy rates were too high as we struggled to contain most teams.

Our one shining success in the T20 competition was Head Groundsman Robin Saxton and his team who have worked tirelessly to improve our pitches at Sophia Gardens in recent years. Their efforts were rewarded in 2019 as they achieved joint top position in the ECB pitch marks for T20 matches alongside Somerset. The first time Glamorgan has reached these heights and I am sure you will join me in congratulating Robin and his team on their efforts.

We enjoyed another first during the summer as the 2nd XI beat Hampshire in the final to win the 2nd XI T20 competition for the first time in our history. Roman Walker bowled a dramatic final over as he successfully defended seven runs which won the title and went some way to Roman picking up the award for 2nd XI Player of the Year.

As the season went on, it was clear that Matthew Maynard was having a very positive influence in the dressing room and building a strong rapport with the players. At the end of the season the progress made in Championship cricket was evident and Matthew was appointed as head coach on a 3-year contract. He is a man who cares passionately about the club and has enjoyed successes in various coaching roles around the world over the past 15 years and would like nothing more than to lead his charges into Division 1 and win some silverware during his tenure. I am sure you will join me in wishing him all the very best for the role.

During the early part of the summer we welcomed Georgina Ewer as our lead physiotherapist. Georgina has brought a wealth of experience from other sports and is settling into her role well at Glamorgan. Of the other backroom staff, it has been rewarding to see David Harrison and Tom Turner recognised for their contributions to our coaching and strength and conditioning programmes by being selected for equivalent roles with England Lions. The experience they will gain on an overseas tour with a senior England team will only benefit Glamorgan players and programmes in the future.

I am delighted to report that after many months of negotiation, the talent pathways for boys and girls will, from 1st February 2020, come under the auspices of Glamorgan. We have reached agreement with Cricket Wales that for an initial five-year period, we will become responsible for the Wales Age Group teams for boys and girls at U13, U15 and U17 level. For the first time ever, Glamorgan will be in a position to provide the most talented young cricketers in Wales with the best possible coaching and support services in the best possible facilities to achieve their potential which will be the start of a long journey to creating a strong Welsh core to our team.

Our summer of international cricket in 2019 was the busiest we have ever hosted and included; three Cricket World Cup warm up matches, four World Cup Group Stage matches and a bilateral T20 match between England and Pakistan.

We were pleased to play our part in a fantastic summer of cricket for the England team which featured the team lifting the World Cup at Lord's for the first time and another nail-biting Ashes Series. The matches we hosted in the World Cup proved to be hugely successful as more than 50,000, including 4,000 schoolchildren, enjoyed some excellent cricket and will hopefully be inspired to play, attend and follow the game in the future.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

The popularity of the World Cup, and the hosting of sixteen internationals in Wales and The West Country during the summer, adversely affected our crowd for the IT20 match. Nevertheless, England continued their excellent form in Cardiff with a convincing victory in the only IT20 of the summer against a strong Pakistan team. Captain Eoin Morgan led the way with an unbeaten 50 and Jofra Archer, in his first IT20 match, gave a glimpse of his future potential on the international stage.

Behind the scenes, a significant amount of time and effort has gone into preparing for the introduction of The Hundred competition in 2020. The introduction of the competition is in response to dwindling participation numbers and significant decline in relevance of the game amongst young people. ECB research found that only 2% of children between the age of U7 and U15 considered cricket as their favourite sport and 60% of these children did not have cricket in their top ten favourite sports.

It is fair to say the formal announcement of the competition had a mixed reception amongst existing cricket fans, but since the launch of team brands, the drafting of 'world class' players and the recruitment of 'world class' coaches, excitement has begun to grow and more and more people are becoming engaged with the new format of the game.

The prospect of Steve Smith walking out to bat at Sophia Gardens in the 'Welsh Fire' kit to rekindle his battle with Jofra Archer or Mitchell Starc running in from The River Taff End to bowl to David Warner in our first home match of the tournament against Southern Brave is a mouth-watering proposition.

The Hundred competition and our team, Welsh Fire, represent a golden opportunity to grow interest and participation in the game across Wales and I urge all our members and our stakeholders to embrace the chance of arresting the decline in the game across Wales and help us inspire the next generation of boys and girls to say that 'cricket is a game for me.'

As far as other events held at Sophia Gardens during the year, our back-to-back 'Queen' concerts were sell-out events along with our international darts tournament and our 'Sophiaworks' bonfire night spectacular had a crowd of 4,000, more than double the inaugural event in 2018. Any profits from these events are reinvested in our cricket programmes and we will continue to explore ways of growing sustainable income streams from non-cricket activities.

Financial Review

In previous years I have explained the fluctuating nature of the club's EBITDA profitability as a consequence of the number and nature of international cricket fixtures and one-off distributions from the ECB. This trend continues and the club has posted EBITDA profits and losses as follows since 2015:

2015	profit	£ 1.201m
2016	loss	£ 0.308m
2017	profit	£ 1.646m (before exceptional receipts)
2018	loss	£ 0.365m
2019	profit	£ 0.754m

The above annual volatility has run alongside relatively stable underlying club income and expenditure for all non-international revenues and expenditures.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

In summary, the results are as follows:

	2019	2018	Change
	£'000	£'000	£'000
EBITDA *	754	(365)	1,119
Depreciation (net of grants)	(432)	(587)	155
Operating profit/(loss)	322	(952)	1,274
Year end bank and cash position	959	620	339
Year end net debt	1,629	2,787	1,158

*EBITDA is operating profit/(loss) before interest, taxation, depreciation and amortisation

2019 has been a strong year financially, as expected.

A combination of 4 World Cup matches and 1 IT20 delivered a core profit of £1.174m. The ECB also distributed an additional £1m which derived from their own World Cup profits. In addition, the club received other sponsorship and grant related income of £490k, giving a total international match contribution of £2.664m. The economic impact of these events to Wales has been assessed as £7.9m with 77% of ticket buyers coming from outside of Wales.

Other sponsorship revenues increased in 2019 by £96k – 28% - to £440k.

Conferencing and banqueting activities continued to develop improved revenues for domestic match-day and non-match day business, increasing by £182k to £1.899m. In addition, profits of £299k were generated during with World Cup and IT20 and other commercial income lines were supported, including box licences and 125 Club memberships.

Ticket sales for domestic matches improved from £263k to £321k, including successful out-ground events at Swansea, Newport and Colwyn Bay. This remains a key area of development for 2020 and beyond.

Membership revenues continued to decline moving down slightly from £288k in 2017 to £259k in 2019.

Membership revenues continued to decline moving down slightly from £288k in 2017 to £259k in 2019.

On the expenditure side cricket investment remains the priority. As noted last year our cricket investment is increasing. Total cricket investment remained static during the period from 2012 to 2018, averaging £2.1m per year. This increased to £2.4m in 2019 and is budgeted to increase to £2.8m in 2020. The additional investment in 2019 has included strengthening our team both on and off the pitch, and in 2020 will include greater investment in our academy and the Welsh junior elite pathway. Cricket investment between 2020 and 2025 will be a key area of focus and it in turn will benefit further from the commercial investment being made and the club's ability to capitalise upon its hosting of The Hundred.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

Other cost areas have seen some upward pressure during 2019. A combination of inflation and increasing standards expectations from the ECB have led to cost increases in operations, grounds and administration (IT and wifi infrastructure). Energy costs continue to increase at a rate above inflation and maintenance costs have increased as the stadium has aged. The club has consciously increased investment in commercial development and will do so further in 2020 in order to capitalise on the potential for related income development between 2020 and 2025.

Cash flow has been tight at times during 2019 but has ended the year in a healthy position. It will continue to be volatile as income and expenditure flows are dictated by the timing of major events.

Looking ahead the club continues to be excited about 2020 and beyond. The ECB's TV deal with Sky and the BBC for the period from 2020 to 2024 is providing many opportunities for the club to invest and create a more robust financial platform for the future. Some of the funding is already allocated to all First-Class counties in the form of increased annual base fees income along with substantial, bespoke maintenance funding. Some of the potential funding requires submission of business plans and capital infrastructure bids, the results of which will become known during 2020.

Going Concern

In preparing the financial statements the Officers have considered the going concern status of the club for twelve months from the date of approval of these financial statements. The Officers are satisfied that the club can continue trading for the foreseeable future and that it is appropriate to prepare the financial statements on a going concern basis.

This report was approved by the Board on 21st February 2020 and signed on its behalf.

Hugh Morris
Chief Executive

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Prif Weithredwr

Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diwedd 31ain Rhagfyr 2019.

Prif Weithgareddau

Prif weithgaredd y Clwb yw hyrwyddo, annog a meithrin criced er budd yr aelodau ar bob lefel yng Nghymru.

Adolygiad o'r Flwyddyn

Mewn sawl ffordd, roedd 2019 yn teimlo fel dechreuad newydd wrth inni gychwyn y tymor gyda Chyfarwyddwr Criced newydd, Prif Hyfforddwr Dros Dro, chwaraewr tramor newydd a rhai wynebnewydd ymhlith y sgwad chwaraewyr. Ein targed cyffredinol oedd cyrraedd dechrau Medi gyda gobaith realistig o gael dyrchafiad, ac wrth inni ddechrau'r mis ymhlith y pedwar uchaf, roeddem yn gobeithio y byddai un ymdrech olaf yn golygu ein bod yn gorffen ymhlith y ddau uchaf. Yn anffodus, collwyd y cyfle i ymuno ag Adran 1 am y tro cyntaf ers 2005 o drwyth blewyn, ond roeddem wedi cymryd sawl cam pwysig ymlaen yn ystod y tymor.

Dechreuodd Mark Wallace ar ei rôl fel Cyfarwyddwr Criced yn Chwefror, a gwnaeth rai penderfyniadau cynnar pwysig. Yn gyntaf, mi benododd Matthew Maynard yn Brif Hyfforddwr Dros Dro ar gyfer tymor 2019, ac yna'n fuan wedyn, mi arwyddodd Marnus Labuschagne yn chwaraewr tramor y clwb. Prin yw'r cefnogwyr Morgannwg a fyddai wedi clywed am Marnus cyn iddo gyrraedd Caerdydd yn Ebrill, ond erbyn diwedd y tymor roedd ei enw ar wefusau pawb.

Calodd Marnus hwyl ryfeddol arni yn gynnar yn y tymor wrth iddo sgorio cant pum gwaith yn y Bencampwriaeth ar gyfartaledd o dros 65, a chafodd ei archwaeth a'i frwdfrydedd anhygoel tuag at y gêm effaith hynod o bositif yn yr ystafell wisgo a chyda'n Haelodau. Gwnaeth ei orchestion argraff ar ddewiswyr Awstralia oherwydd fe'i dewiswyd i fod yn rhan o dîm teithiol Awstralia ar gyfer Cyfres y Lludw, gan wneud ei farc ar y llwyfan rhyngwladol ar unwaith.

Mae perfformiad Marnus o fewn y byd criced rhyngwladol ers iddo gymryd lle Steve Smith, wedi i hwnnw ddioddef cyfergyd yn y gêm brawf yn Lords, wedi bod yn anhygoel, ac wedi sicrhau lle iddo ymhlith y pump uchaf yn Rhengoedd y Byd batwyr Prawf yr ICC. Mae'n nodweddiadol ohono ei fod wedi cydnabod ei gyfnod gyda Morgannwg, a gweithio gyda Matthew Maynard yn arbennig, fel y catalydd ar gyfer ei siwrnai o fod yn fatiwr Dosbarth Cyntaf da i fod yn un o'r gorau yn y byd.

Rydym yn hynod falch y bydd Marnus yn parhau i wisgo cennin Pedr Morgannwg dros y ddwy flynedd nesaf am iddo arwyddo estyniad i'w gytundeb ar ddiwedd y flwyddyn, er gwaethaf peth cystadleuaeth chwyrn am ei wasanaeth.

Chwyrn am ei wasanaeth.

Nid Marnus oedd yr unig wyneb newydd i gael dechrau gogoneddus i'w yrfa gyda Morgannwg, wrth i 'Billy' Root gael hwyl ryfeddol arni ar ôl symud i Gymru, gan sgorio cant ddwywaith yn gynnar yn y tymor, gan gynnwys sgôr uchaf ei yrfa, sef 229 gwych yn erbyn Swydd Northampton.

Ymunodd newydd-ddyfodiad arall â 'Billy' ar frig y rhestr fatio, sef Charlie Hemphrey. Ar ôl treulio blwyddyn neu ddwy yn chwarae yn ail dimau Caint, Essex a Swydd Derby, allfudodd Charlie i Awstralia a chael llwyddiant gyda Queensland yn y Sheffield Shield. Fel 'Billy', setlodd yn ystafell wisgo Morgannwg yn gyflym iawn, a rhoddodd sefydlogrwydd yr oedd ei wir angen ar frig y rhestr fatio. Mi fydd Charlie wedi elwa o brofiad tymor Sirol llawn a bydd yn awyddus i drosi nifer o ddechreuadau addawol, gan gynnwys pum sgôr o hanner cant neu twy, yn sgorau mwy trawiadol y tymor nesaf.

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Prif Weithredwr

Ar ôl rhoi'r gorau i'w gapteniaeth ar ddechrau'r tymor, cafodd Michael Hogan ymgyrch arall rhagorol i'r Clwb. Gyda'i 46 wiced ar gyfartaledd o 21 rhediad yr un, parhaodd i berfformio'n eithriadol o gyson i Forgannwg, ac rwy'n siŵr y bydd yr aelodau am ymuno â mi i longyfarch Michael ar gael ei wobrwyo â thysteb hynod haeddiannol yn 2020.

Cafodd Timm Van Der Gugten ei rwystro gan fân anafiadau yn ystod 2019 a olygai nad oedd ar gael bob amser, ac yn yr un modd cafodd Craig Meschede a Ruaidhri Smith anafiadau â'u cyfyngodd i ymddangosiadau mewn llond dwrn o gemau yn unig rhyngddyn nhw.

O ran y sêrn-fowlwyr eraill, roedd hi'n dda gweld Marchant de Lange yn ôl ar ei orau tanllyd yn dilyn anaf difrifol i llyn y gar yn 2018, a gydag ychydig yn fwy o lwc mi fyddai wedi mwynhau tymor mwy proffidiol. Yn y cyfamser, bydd Lukas Carey yn gobeithio y bydd gaeaf yn Brisbane yn caniatáu iddo ddychwelyd i gipio mwy o wicedi yn ystod tymor 2020.

Roedd cyfleoedd ar gyfer ein troellwyr yn brin wrth i Marnus ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros yr adran honno'n gynnar yn y tymor, ac nid oedd Kieran Bull ar gael bob tro oherwydd anaf sylweddol i'w gefn. Mae'n dda dweud bod Kieran wedi ymateb yn dda i lawdriniaeth ac mae'n edrych ymlaen at herio Andrew Salter fel y troellwr yn nhîm y Bencampwriaeth.

Roedd ein Gwyliau oddi ar ein prif faes yn boblogaidd unwaith eto gyda'n Haelodau a'n cefnogwyr ar draws Cymru, ac roedd hi'n bleser arbennig gweld Criced Dosbarth Cyntaf yn dychwelyd i Gasnewydd ar ôl 54 mlynedd o absenoldeb. Daeth nifer dda i weld y gêm yn erbyn Swydd Gaerloyw, a dylid llongyfarch Clwb Criced Casnewydd am eu croeso rhagorol, ac am ddarparu llain 4 diwrnod dda iawn ar gyfer ein gêm yn erbyn Swydd Gaerloyw.

Cawsom lain arall dda yn Abertawe wrth i fatwyr ffynnu er gwaetha'r tywydd anhymorol yn ystod y gêm yn erbyn Swydd Derby ym Mehefin. Unwaith eto, gweithiodd John Williams a'r Balconiers yn ddiflino ar ran y Clwb ac fel bob amser, rydym yn gwerthfawrogi'r rhodd ariannol hael a gawsom ganddynt ar ddiwedd y tymor.

Roedd y gêm Bencampwriaeth ym Mae Colwyn yn erbyn Swydd Gaerhirfryn yn un a oedd yn siŵr o ddenu tyrfafawr, a chyda'r ymwelwyr mewn safle gwych ar frig tabl Adran 2 wrth iddyn nhw gyrraedd Llandrillo-yn-rhos, ni chawsant eu siomi gan eu dilynwy'r ffyddlon.

Swydd Gaerhirfryn yn ddiamau oedd y tîm cryfaf inni eu hwynebu yn y Bencampwriaeth yn 2019 ac roeddent yn llwyr haeddu cael eu hail-ddyrchafu i Adran 1. Roedd sgôr rhagorol Dane Vilas o 266 oddi ar 240 pêl yn goron ar eu buddugoliaeth ysgubol yng Ngogledd Cymru.

Roeddent yn llwyr haeddu cael eu hail-ddyrchafu i Adran 1. Roedd sgôr rhagorol Dane Vilas o 266 oddi ar 240 pêl yn goron ar eu buddugoliaeth ysgubol yng Ngogledd Cymru.

Yn ei dymor llawn cyntaf fel Capten, gwnaeth Chris Cooke argraff dda fel arweinydd a chafodd dymor ardderchog y tu ôl i'r wicedi, yn ogystal â sgorio, ar gyfartaledd, 46 rhediad gyda'r bat. Mae ei ddylanwad tawel, ei ddealltwriaeth o'r gêm, a pharch ei gyd-chwaraewyr proffesiynol yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Er inni wneud rhai camau ymlaen yng ngemau'r Bencampwriaeth roedd ein perfformiadau Undydd yn siomedig ar y cyfan, yn arbennig yn y gemau T20. 'Billy' Root, Chris Cooke a David Lloyd oedd y batwyr gorau yng nghystadleuaeth 50 pelawd Royal London, gyda Marnus Labuschagne yn methu â throsglwyddo ei lwyddiant ysgubol yng ngemau'r Bencampwriaeth i'r fersiwn fyrrach o'r gêm. Cafodd Marchant de Lange dymor arall da yn y gystadleuaeth 50 pelawd ond ar y cyfan roedd y gystadleuaeth hon yn dipyn o dalcen caled i'r bowlwyr.

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Prif Weithredwr

Roedd ein perfformiad yn y T20 yn siomedig iawn ac yn rhywbeth y byddwn yn rhoi sylw iddo yn 2020. Doedd y chwyrlligwgan o chwaraewyr tramor yn fawr o help i'n gobeithion. Methodd Shaun Marsh â chwarae sawl gêm oherwydd anafiadau, cafodd ei frawd Mitchell, a Marnus Labuschagne eu dewis i chwarae yng nghyfres Y Llodw, a methodd Fakhar Zaman a chreu'r argraff roeddem wedi'i obeithio ar frig y rhestr fatio.

Ar ôl pum tymor o lwyddiant aruthrol, calodd Colin Ingram ei dymor T20 fwyaf heriol, a dim ond David Lloyd, o blith y batwyr oedd ar frig y rhestr, a ddangosodd unrhyw arwyddion o lwyddiant cyson, ac ymlau felly a enillodd Wobr Chwaraewr Undydd y Flwyddyn, a hynny'n gwbl haeddiannol.

Andrew Salter a Marchant de Lange oedd dau o'n bowlwyr mwyaf llwyddiannus yn y gystadleuaeth T20, ond ildiodd ein bowlwyr ormod o rediadau a chawsom anhawster i ffrwyno'r rhan fwyaf o'r timau.

Ein hunig seren iachar yn y gystadleuaeth T20 oedd ein Prif Dirmon, Robin Saxton a'i dîm, sydd wedi gweithio'n ddiflino i wella'n lleiniau yng Ngerddi Sophia dros y blynyddoedd diwethaf. Cafodd eu hymdrechion eu gwobrwyo yn 2019 wrth iddynt ddod yn gydradd gyntaf am farciau llain yr ECB ar gyfer gemau T20, ochr yn ochr â Gwlad yr Haf. Dyma'r tro cyntaf i Forgannwg gyrraedd y brig ac rwy'n siŵr y byddwch am ymuno â mi i longyfarch Robin a'i dîm ar eu hymdrechion.

Cawsom lwyddiant cyntaf arall yn ystod yr haf wrth i'r 2il dîm guro Hampshire yn y rownd derfynol gan ennill y gystadleuaeth T20 ar gyfer ail dimau am y tro cyntaf yn ein hanes. Bowliodd Roman Walker belawd olaf ddramatig gan lwyddo i atal Hampshire rhag sgorio'r saith rhediad oedd eu hangen arnynt. O ganlyniad cipiwyd y teill a chymerodd Roman gam mawr ymlaen tuag at ennill gwobr Chwaraewr y flwyddyn yr ail dîm.

Wrth i'r tymor fynd rhagddo, roedd hi'n amlwg bod Matthew Maynard yn cael dylanwad positif iawn yn yr ystafell newid a'i fod yn adeiladu perthynas dda â'r chwaraewyr. Ar ddiwedd y tymor roedd y cynnydd a wnaed o ran criced y Bencampwriaeth yn amlwg, a chafodd Matthew ei benodi'n Brif Hyfforddwr ar gytundeb tair blynedd. Mae'n un sy'n hynod o daer a brwdfrydig dros y Clwb ac mae wedi mwynhau lwyddiant o fewn rolau hyfforddi amrywiol ar draws y byd dros y 15 mlynedd diwethaf. Ni fyddai dim yn well ganddo nag arwain ei chwaraewyr i Adran 1 a chipio ambell i darian yn ystod ei gyfnod wrth y llyw. Rwy'n siŵr eich bod chithau, fel finnau, am ddymuno'r gorau iddo yn ei rôl.

Yn ystod rhan gyntaf yr haf mi groesawon ni Georgina Ewer i'n plith fel ein Prif Ffisiotherapydd. Mae gan Georgina gyfoeth o brofiad mewn chwaraeon eraill ac mae'n setlo'n dda i'w rôl ym Morgannwg. O ran staff ystafell gefn eraill, roedd yn braf gweld David Harrison a Tom Turner yn cael eu cydnabod am eu cyfraniadau i'n rhaglenni hyfforddi a'n rhaglenni cryfder a chyflyru drwy gael eu dewis ar gyfer O'r ran staff ystafell gefn eraill, roedd yn braf gweld David Harrison a Tom Turner yn cael eu cydnabod am eu cyfraniadau i'n rhaglenni hyfforddi a'n rhaglenni cryfder a chyflyru drwy gael eu dewis ar gyfer rolau cyfatebol gyda Llewod Lloegr. Bydd y profiad a gaiff y ddau ar daith dramor gydag un o uwch dimau Lloegr o fudd i chwaraewyr a rhaglenni Morgannwg yn y dyfodol.

Yn dilyn misoedd lawer o drafod, rwy'n falch iawn o gyhoeddi y bydd y llwybrau talent ar gyfer bechgyn a merched, o 1af Chwefror 2020, yn dod dan adain Morgannwg. Rydym wedi dod i gytundeb â Chried Cymru y byddwn ni, am gyfnod o bum mlynedd i ddechrau, yn dod yn gyfrifol am dimau Grwpiau Oedran Cymru ar gyfer bechgyn a merched ar lefel D13, D15 a D17. Am y tro cyntaf erioed, bydd Morgannwg mewn sefyllfa i ddarparu cricedwyr ifanc mwyaf dawnus Cymru â'r gwasanaethau hyfforddi a chymorth gorau posib, o fewn y cyfleusterau gorau posib, er mwyn iddyn nhw gyflawni eu potensial yn llawn. Dyma fydd dechrau siwrnai hir i greu craidd Cymreig cadarn i'n tîm.

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Prif Weithredwr

Ein haf criced rhyngwladol yn 2019 oedd y prysuraf inni ei lwyfannu erioed ac roedd yn cynnwys: tair gêm baratoi ar gyfer Cwpan Criced y Byd, pedair gêm Rownd y Grwpiau ar gyfer Cwpan y Byd, a gêm IT20 rhwng Lloegr a Phacistan.

Roeddem yn falch o chwarae'n rhan mewn haf gogoneddus o griced i dîm Lloegr, gyda'r tîm yn codi Cwpan y Byd yn Lords am y tro cyntaf, yn ogystal â chael Cyfres y Lludw gyffrous iawn. Roedd y gemau a lwyfannwyd gennym yng Nghwpan y Byd yn hynod lwyddiannus, gyda dros 50,000, gan gynnwys 4,000 o blant ysgol, yn mwynhau criced ardderchog, a gobeithio y bydd hynny'n eu hysbrydoli i chwarae, mynychu a dilyn y gêm yn y dyfodol.

Yn sgil poblogrwydd Cwpan y Byd, a'r ffaith bod 16 o gemau rhyngwladol wedi'u cynnal yng Nghymru a De-orllewin Lloegr dros yr haf, daeth llai o dyrfa i wyllo'r gêm IT20. Serch hynny, daliodd Lloegr ati i chwarae'n wych yng Nghaerdydd, gan sicrhau buddugoliaeth bendant yn unig gêm IT20 yr haf, yn erbyn tîm cryf o Bacistan. Arweiniodd y Capten Eoin Morgan y ffordd gan sgorio dros hanner cant heb fod allan, a rhoddodd Jofra Archer, yn ei gêm IT20 gyntaf, gipolwg inni o'i botensial ar y llwyfan rhyngwladol yn y dyfodol.

Y tu ôl i'r llenni, gwnaed llawer iawn o waith ac ymdrech i baratoi ar gyfer y gystadleuaeth Can Pelen (*The Hundred*) yn 2020. Mae'r gystadleuaeth yn cael ei chyflwyno mewn ymateb i'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n cymryd rhan a'r duedd gynyddol i bobl ifanc deimlo nad yw'r gêm yn berthnasol iddyn nhw. Yn ôl ymchwil gan yr ECB dim ond 2% o blant rhwng y grŵpiau oedran D7 a D15 oedd yn ystyried criced fel eu hoff gêm ac nid oedd criced ymhlith y deg uchaf o hoff gampau 60% o'r plant hyn.

Mae'n deg dweud mai derbyniad cymysg a gafodd y cyhoeddiad swyddogol am y gystadleuaeth ymhlith dilynwyr criced presennol, ond ers lansio brandiau'r timau, drafftio chwaraewyr 'o safon fyd-eang' a recriwtio hyfforddwyr 'o safon fyd-eang' mae mwy o gyffro ar droed, ac mae mwy a mwy o bobl yn cymryd at fformat newydd y gêm.

Mae meddwl am Steve Smith yn camu allan i fatio yng Ngerddi Sophia yn ei wisg 'Tân Cymreig' i ailgynnu ei frwydr gyda Jofra Archer, neu Mitchell Starc yn rhedeg i mewn o ben yr Afon Taf i fowlio i David Warner yn ein gêm gartref gyntaf o'r twrnament yn erbyn tîm Southern Brave yn tynnu dŵr i'r dannedd.

Mae'r gystadleuaeth Can Pelen a'n tîm ni, Tân Cymreig, yn cynrychioli cyfle euraidd i ennyn mwy o ddiddordeb ac annog mwy o bobl i chwarae'r gêm ar draws Cymru, ac rwy'n annog ein holl aelodau a'n rhanddeiliaid i groesawu'r cyfle i atal y dirywiad yn y gêm ar draws Cymru, a'n helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o fechgyn a merched i ddweud 'mae criced yn gêm ar fy nghyfer i'. a'n rhanddeiliaid i groesawu'r cyfle i atal y dirywiad yn y gêm ar draws Cymru, a'n helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o fechgyn a merched i ddweud 'mae criced yn gêm ar fy nghyfer i'.

O ran digwyddiadau eraill a gynhaliwyd yng Ngerddi Sophia yn ystod y flwyddyn, gwerthwyd pob tocyn ar gyfer ein cyngherddau 'Queen' cefn wrth gefn, ac felly hefyd ein twrnament dartiau rhyngwladol, ac mi ddenodd ein noson tân gwyllt '*Sophiaworks*' dyrfa o 4,000, sef dros ddwywaith y nifer a ddaeth i'n noson tân gwyllt gyntaf yn 2018. Mae unrhyw elw a wneir o'r digwyddiadau hyn yn cael ei ail-fuddsoddi yn ein rhaglenni criced, a byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd o gynyddu ffynonellau incwm cynaliadwy o weithgareddau ar wahân i griced.

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Prif Weithredwr

Adolygiad Ariannol

Yn y blynyddoedd blaenorol rwyf wedi esbonio natur anwadal proffidioldeb EBITDA y Clwb o ganlyniad i nifer a natur y gemau criced rhyngwladol, a chyfraniadau unigol gan yr ECB. Mae'r duedd hon yn parhau ac mae elw a cholled EBITDA y Clwb fel a ganlyn ers 2015:

2015	elw	£ 1.201m
2016	colled	£ 0.308m
